# CABINET

Cofnodion cyfarfod o’r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 29 Gorffennaf 2014 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr: Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Economaidd; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol dros Wasanaethau Gofal Cymdeithasol, Oedolion a Phlant; Hugh Irving, Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Chymunedau; Huw Jones, Aelod Arweiniol dros Hamdden, Ieuenctid, Twristiaeth a Datblygu Gwledig; Barbara Smith, Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad; David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus; Julian Thompson Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau; ac Eryl Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Addysg.

**Yn Gwylio:** Y Cynghorwyr: Ray Bartley, Meirick Davies, Huw Hilditch-Roberts, Jason McLellan, Merfyn Parry a David Simmons

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (MM); Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM); Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol (NS); Penaethiaid Gwasanaeth: Y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Addysg (KE), Cefnogi Addysg a Chwsmeriaid (JW); Rheolwr Rhaglen - Moderneiddio Addysg (JC); Prif Gyfrifydd (RW); Uwch Beiriannydd, Rheoli Perygl Llifogydd (WH); Rheolwr y Tîm Dylunio ac Adeiladu (SE); Rheolwr Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl (CE); a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafodd unrhyw gysylltiad personol na rhagfarnol ei ddatgan.

## 3 MATERION BRYS

Ni chafwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2014

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2014 fel cofnod cywir ac y dylai’r Arweinydd eu llofnodi.*

## 5 RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG

[Datganodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts gysylltiad personol yn yr eitem hon.]

Cyflwynodd y Cynghorydd Eryl Williams yr adroddiad gan roi diweddariad ynglŷn â'r Rhaglen Moderneiddio Addysg a cheisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer prosiectau o fewn y Rhaglen.

Amlygwyd llwyddiant y Cyngor wrth weithredu prosiectau Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a thynnwyd sylw'r aelodau at statws ac ymrwymiadau ariannol presennol y prosiectau hynny. Darparwyd trosolwg hefyd o brosiectau posibl i'w ariannu fel rhan o'r Cynllun Corfforaethol a cheisiwyd cymeradwyaeth i ariannu astudiaeth ddichonoldeb i ddatblygu'r prif ddewisiadau gogyfer â buddsoddiad cyfalaf sy'n deillio o adolygiad ardal Rhuthun. Cyfeiriwyd hefyd at adolygiadau ardal sydd i'w cynnal yn y dyfodol yn Ninbych, Llanelwy, y Rhyl a Bodelwyddan ac at y cynnig i newid dynodiad Ysgol Esgob Morgan i fod yn un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru.

Trafododd y Cabinet y rhaglen uchelgeisiol ar gyfer buddsoddi mewn ysgolion yn wyneb y toriadau sylweddol yn y gyllideb sy'n wynebu'r awdurdod a bu i'r Cynghorydd Eryl Williams annog y Cabinet i beidio â gwyro oddi wrth y dull gweithredu a gynlluniwyd er mwyn sicrhau darpariaeth o ansawdd mewn ysgolion ledled Sir Ddinbych. Ymhelaethodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill ynglŷn â'r cyllid sydd ei angen a'r dyraniadau dros dro sydd wedi eu gwneud ac roedd yn hyderus y gellid cyflawni'r rhaglen. Cafodd y prosiectau eu dadansoddi'n fanwl gan y Grŵp Buddsoddi Strategol a cheir sicrwydd pellach yn sgil cyflawni gwaith dichonolrwydd. Cytunodd y Cynghorydd Hugh Evans ei bod yn bwysig parhau â'r rhaglen gyfalaf, ond nododd y dylid bod yn ymwybodol o faterion eraill a allai effeithio ar argaeledd cyllid Llywodraeth Cymru, megis ffordd liniarol yr M4 sydd yn yr arfaeth.

Ystyriodd y Cabinet y cynigion yn ofalus fel rhan o adolygiad ardal Rhuthun gan gynnwys ystyried rhinweddau'r cynigion hynny a'r canlyniadau posibl i'r rhai dan sylw. Er gwaethaf pryderon blaenorol ynglŷn â'r adolygiad, roedd y Cynghorydd Bobby Feeley wedi ei fodloni â'r sicrwydd a gafwyd gan yr Aelod Arweiniol dros Addysg a chan Bennaeth Cefnogi Addysg a Chwsmeriaid y byddai'r ysgol newydd yn Rhuthun yn mynd yn ei blaen. Roedd y prif bwyntiau trafod yn cynnwys -

- Ysgol Llanbedr - roedd disgwyl penderfyniad gan y Gweinidog ynglŷn â chau'r ysgol fis Medi a bu i'r Cynghorydd Eryl Williams gadarnhau ei ymrwymiad i symud ymlaen â'r cynigion sy'n weddill ar gyfer Rhuthun
- Ysgol Rhewl - pwysleisiodd y Pennaeth Cefnogi Addysg a Chwsmeriaid y cynhelir ymgynghoriad llawn ynglŷn â dyfodol Ysgol Rhewl yn dilyn cynnal astudiaeth o ddichonoldeb safle Glasdir. Dywedodd y Cynghorydd Merfyn Parry bod staff a llywodraethwyr Ysgol Rhewl yn frwdfrydig ynglŷn â chael eu cynnwys yn y broses adolygu gan ddweud y byddent yn croesawu cael mewnbwn i'r dewisiadau yn y dyfodol. Roedd amseru cyhoeddi'r adroddiad yn ystod gwyliau'r ysgol yn anffodus a rhoddodd y Pennaeth Cefnogi Addysg a Chwsmeriaid sicrwydd y byddai'r rhieni a gysylltodd â'r Tîm Derbyniadau yn cael eglurhad o sefyllfa'r adolygiad

- Ysgolion Tref Rhuthun a Safle Glasdir – darparwyd y terfynau amser disgwyliedig ar gyfer datblygu cynigion. Pe caiff ei gymeradwyo, mae disgwyl y byddai'r astudiaeth o ddichonoldeb lleoliad yr ysgolion posibl a'u nifer yn cael ei chwblhau yn yr hydref ac yn dilyn hynny gellid asesu pa effaith fyddai ar Ysgol Rhewl. Y cam nesaf yw ymgynghori ynglŷn â dyfodol Ysgol Rhewl a chaiff hynny ei wneud ar yr un pryd a llunio cynllun manwl ar gyfer ysgol newydd y dref .

Nododd yr Aelodau rai meysydd o'r ddarpariaeth gynradd y dylid eu hadolygu yn y dyfodol a nodi pa faterion y dylid mynd i'r afael â nhw. Teimlai'r Cynghorydd Meirick Davies bod y cynnig i newid dynodiad Ysgol Esgob Morgan yn fater y dylid craffu arno. Adroddodd y Pennaeth Cefnogi Addysg a Chwsmeriaid fod y Rhaglen Moderneiddio Addysg wedi bod drwy'r broses graffu ac y byddai hi'n barod i ddarparu adroddiadau ynglŷn â phrosiectau unigol yn ôl y gofyn. Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Davies hefyd ynglŷn â chyfarfod o Fforwm Busnes Llanelwy lle cwestiynwyd cyflogadwyedd pobl ifanc Sir Ddinbych. Cafwyd sicrwydd gan y Pennaeth Addysg ynglŷn â lefelau cyrhaeddiad disgyblion Sir Ddinbych a dywedodd fod sgiliau cyflogadwyedd yn broblem genedlaethol. Cytunodd gwrdd â'r Cynghorydd Davies wedi'r cyfarfod i drafod y mater ymhellach. Ychwanegodd y Cynghorydd Eryl Williams ei bod yn ofynnol i ysgolion ddilyn agenda llwybrau dysgu 14 - 19 fel y mae wedi ei gosod gan Lywodraeth Cymru.

Bu i'r Cabinet ailddatgan eu hymrwymiad i'r flaenoriaeth gorfforaethol o wella perfformiad mewn addysg a gwella ansawdd adeiladau ysgolion ledled y sir.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn:-*

*(a) awdurdodi cychwyn ar astudiaethau dichonoldeb mewn perthynas â'r prosiectau a nodir yn Atodiad 2 yr adroddiad, ac y byddai eu cwblhâd yn destun dod i benderfyniad ynglŷn â'r gyllideb yn y dyfodol;*

*(b) nodi y bydd yr awdurdod yn parhau i gynnal y ddarpariaeth yn Ysgol Borthyn;*

*(c) nodi'r gofyniad i ymgynghori ynglŷn â dyfodol Ysgol Rhewl yn dilyn cynnal astudiaeth o ddichonoldeb safle Glasdir, ac yn*

*(d) cymeradwyo symud ymlaen i ymgynghori'n ffurfiol ynglŷn â'r bwriad i newid Ysgol Esgob Morgan yn ysgol â dynodiad crefyddol trwy gau'r ysgol gymunedol bresennol a'i hail-agor fel ysgol Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru a Reolir o 1 Medi 2015.*

## 6 Y STRATEGAETH LEOL AR GYFER RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD A'R DIWEDDARAF YNGLŶN Â RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD YN SIR DDINBYCH

Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd David Smith yn cyflwyno'r Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd i'w chymeradwyo ac yn rhoi diweddariad ynglŷn â llifogydd Tachwedd 2012 a llifogydd arfordirol Rhagfyr 2013. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi manylion lleoliadau lle mae angen cynlluniau i leihau perygl llifogydd i lefel dderbyniol.

Rhoddwyd gwybod i'r Cabinet am y gofyn i gynhyrchu strategaeth a fyddai'n manylu am wyth canlyniad a fyddai'n galluogi'r Cyngor i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli perygl llifogydd. Roedd y ddogfen wedi cael ei hystyried yn y Pwyllgor Archwilio Cymunedau ac ni chafodd unrhyw faterion o bwys eu codi. Amlygodd y Cynghorydd Smith y gwahanol ardaloedd llifogydd y mae'r Cyngor a phartneriaid y Cyngor yn gyfrifol amdanynt ac amlygu'r goblygiadau ariannol i Gyngor Sir Ddinbych. Ychwanegodd mai rheoli risg llifogydd yw un o'i flaenoriaethau.

Trôdd y drafodaeth gychwynnol o amgylch llifogydd Rhagfyr 2013 a'r modd clodwiw y bu i'r Cyngor ymateb yn ystod y digwyddiad ac ar ei ôl. O siarad â rhai a gafodd eu heffeithio, roedd y Cynghorydd Bobby Feeley eisiau sicrwydd fod y Cyngor yn cymryd y camau angenrheidiol i atal llifogydd yn y dyfodol. Roedd y Cynghorydd David Simmons hefyd yn gofyn am weithredu a thynnodd sylw at bryderon y trigolion, yn enwedig yn ardal Garford Road / Ffordd yr Arfordir, ac at yr angen am broses gadarn er mwyn rhybuddio a diogelu trigolion oedrannus a diamddiffyn. Cafwyd adroddiad gan Uwch Beiriannydd, Rheoli Perygl Llifogydd (SE) ynglŷn â'r gwaith cychwynnol a wnaed yn yr ardal a chadarnhaodd fod rhaglen waith wedi ei datblygu i leihau'r risg ymhellach. Mae'n debyg na allai'r Cyngor, ar ei ben ei hun, fforddio'r posibilrwydd o sefydlu cynllun gwella amddiffynfeydd yr arfordir, a byddai'n ddibynnol ar gael arian grant sylweddol oddi wrth Lywodraeth Cymru. Eglurodd mai Dŵr Cymru sy'n gyfrifol am garthffosydd sy'n gorlifo a'u bod yn cynnal ymchwiliad yn fuan i nifer o achosion diweddar o lifogydd ledled y sir yn dilyn glaw trwm. Amlygwyd pwysigrwydd wardeiniaid llifogydd hefyd a dywedwyd wrth yr aelodau mai mater i Gyfoeth Naturiol Cymru yw dynodi wardeiniaid llifogydd mewn ardaloedd o berygl er mwyn rhannu gwybodaeth leol ynglŷn â'r sawl sydd wedi eu heffeithio a pha mor ddiamddiffyn ydynt. Roedd system ymateb brys y Cyngor wedi cael ei mireinio yn dilyn profiadau diweddar a chafwyd adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ynglŷn â gwaith yr oedd wedi ei wneud er mwyn gwella cadernid y trefniadau sydd yn eu lle ar gyfer dynodi pa breswylwyr sy'n ddiamddiffyn yn ystod cyfnod o ymateb brys.

Tra câi'r strategaeth ei hystyried, ymatebodd SE i gwestiynau ynglŷn â'r risg o lifogydd mewn ardaloedd penodol a'r fethodoleg a ddefnyddir wrth gynnal asesiadau cychwynnol yn unol â chanllawiau sydd wedi eu diffinio'n genedlaethol. Roedd y Cynghorydd Huw Jones yn awyddus i Gorwen gael ei ailasesu o ran perygl llifogydd yn dilyn y gwaith a wnaed yn ddiweddar i liniaru llifogydd a chytunodd drafod y mater gydag SE wedi'r cyfarfod. Mewn ymateb i faterion a godwyd gan y Cynghorydd Meirick Davies, cadarnhaodd SE y gellid ychwanegu cyfeiriad at Gefn Meiriadog fel un o'r ardaloedd yr effeithia perygl llifogydd arnynt (tudalen 8). Gellid diwygio'r cyfieithiad Cymraeg yn ôl yr angen hefyd. Soniodd hefyd am gyfrifoldebau a deddfwriaeth sy'n llywodraethu carthffosydd a'r ystyriaeth a roddwyd i Gynllun Rheoli'r Traethlin wrth lunio'r strategaeth.

Cymeradwyodd y Cabinet y strategaeth a'r gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau cynharach ond mynegwyd pryderon ynglŷn â'r adnoddau y mae eu hangen i sicrhau gweithredu a monitro'r strategaeth yn briodol ar adeg o doriadau sylweddol yn y gyllideb. Y farn oedd y dylid rhoi blaenoriaeth uwch i reoli perygl llifogydd ac y dylid ystyried cynnwys hynny yn y Cynllun Corfforaethol. Cafodd yr Aelodau

sicrwydd gan y Prif Weithredwr y byddai'r mater yn cael ei drafod ymhellach fis Medi mewn sesiwn rhyddid a hyblygrwydd ynglŷn â'r Cynllun Corfforaethol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*

*(a)* *cymeradwyo cyflwyno'r Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd i Lywodraeth Cymru gogyfer ag adolygiad Gweinidogol, ac yn*

*(b)* *nodi'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd yn yr adroddiad.*

## 7 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni. Rhoddodd y crynodeb canlynol o sefyllfa ariannol y Cyngor-

- caiff gorwariant net o £235k ei ragweld yn y gyllideb refeniw ar gyfer cyllidebau corfforaethol a chyllidebau gwasanaethau mewn perthynas â chludiant ysgol, parcio ceir a gosod tai arfordirol
- cytunwyd ar arbedion o £7.1m fel rhan o'r gyllideb ac ar hyn o bryd ystyrir bod y rhain wedi eu cyflawni
- amlygwyd y prif amrywiadau oddi wrth gyllidebau neu dargedau arbedion meysydd gwasanaeth unigol
- cafwyd diweddariad cyffredinol ynglŷn â'r Cynllun Corfforaethol; Cyfrif Refeniw Tai; Rheoli'r Trysorlys a'r Cynllun Cyfalaf.

Roedd y Cynghorydd Huw Jones yn awyddus i amlygu'r gwaith da sy'n cael ei wneud yn y gwasanaethau hamdden gyda chynnydd sylweddol yn nifer y rhai sy'n aelodau o ganolfannau hamdden.

Holodd y Cynghorydd Barbara Smith gwestiynau ynglŷn â rheoli'r trysorlys a rhagolygon rhent. Cadarnhawyd y gellid cynhyrchu arbedion ymylol trwy gael gostyngiad yng nghyfradd fenthyca'r cyngor a chafwyd sicrwydd gan y Cynghorydd Hugh Irving fod pob ymdrech yn cael ei gwneud i ail-ddyrannu tai cyngor gwag cyn gynted â phosibl.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Hugh Evans at fuddsoddiad cyfalaf mawr Datblygiad Harbwr y Rhyl a'r posibilrwydd o ddatblygu cyfleoedd busnes er mwyn cynhyrchu rhagor o elw o'r buddsoddiad. Tynnodd sylw hefyd at y rhwystredigaeth a deimlai oherwydd i'r caffi ar y safle fod cyhyd yn agor, a chytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol i ymchwilio i'r rhesymau dros yr oedi.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2014/15 a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni.*

## 8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried, gan atgoffa'r aelodau fod y cyfarfod o'r Cabinet a drefnwyd ar gyfer 2 Medi wedi ei newid i fod yn Sesiwn i Friffio'r Cabinet.

Gofynnodd y Pennaeth Cefnogi Addysg a Chwsmeriaid bod eitem ar y Polisi Cludiant Ysgol yn cael ei hychwanegu at y rhaglen waith ar gyfer 30 Medi. Er mwyn osgoi unrhyw oedi diangen gofynnodd y Cynghorydd Eryl Williams am hyblygrwydd o ran ychwanegu unrhyw eitemau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Moderneiddio Addysg a all ddod ger bron ym mis Tachwedd / Rhagfyr.

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD*** *dan ddarpariaethau Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.*

**9 YSGOL NEWYDD Y RHYL - DYFARNU CONTRACTAU**

Cyflwynodd y Cynghorydd Eryl Williams yr adroddiad cyfrinachol yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu contractau mewn perthynas ag adeiladu, a chwblhau maes o law, Ysgol Newydd y Rhyl, ynghyd ag amserlen ar gyfer y prosiect.

Dywedodd y swyddogion bod y Contractwr, Willmott Dixon wedi cyflwyno cynigion manwl ac na fyddai'r contract adeiladu yn cael ei ddyfarnu hyd nes y creffir ar y cynigion hynny a hyd nes cael cadarnhad ynglŷn â chyllid Llywodraeth Cymru. Cafwyd sicrwydd hefyd bod buddion cymunedol wedi eu cynnwys fel rhan o fanyleb y tendr er budd y farchnad lafur leol a busnesau lleol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo dyfarnu contractau sy'n gysylltiedig ag Ysgol Newydd y Rhyl hyd at uchafswm gwerth fel y manylir yn ei gylch yn yr adroddiad, yn amodol ar gael cadarnhad o gyllid gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'u cyfran hwy o'r cyllid ar gyfer y prosiect.*

**10 CAM 3 AMDDIFFYN YR ARFORDIR GORLLEWIN Y RHYL - DYFARNU CONTRACT**

Cyflwynodd y Cynghorydd David Smith yr adroddiad cyfrinachol ynghylch penodi contractwr ar gyfer gwaith adeiladu Cynllun Amddiffyn Arfordir Gorllewin y Rhyl (Cam 3).

Cafodd y Cabinet fanylion y dewisiadau ar gyfer amddiffyn rhag llifogydd ynghyd ag amcan o werth y contract a'r cymorth grant sydd ar gael. Darparwyd canlyniad y broses dendro ac roedd yr aelodau'n siomedig bod y tendrau a gafwyd yn llawer uwch na'r swm a amcangyfrifwyd, ac felly nid oedd yn bosibl dyfarnu'r contract ar hyn o bryd. Cadarnhaodd y Cabinet eu hymrwymiad i'r cynllun gan ystyried y dewisiadau posibl wrth ystyried y ffordd ymlaen, a chan gadw mewn cof yr

amserlen dan sylw ac argaeledd yr arian grant. Gofynnodd y Prif Weithredwr am ddadansoddiad manwl o'r rhesymau y tu ôl i'r cynnydd yn y gost, er mwyn cryfhau unrhyw achos am gymorth ariannol ychwanegol i wneud yn iawn am y diffyg cyllid. Yn dilyn trafodaeth fanwl -

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn awdurdodi -*

*(a) Pennaeth y Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol i ddilyn proses o drafod contractau yn unol â Rheol 24 y Weithdrefn Gontractau;*

*(b) Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus i lobïo Llywodraeth Cymru am gymorth ariannol ychwanegol gogyfer â'r cynllun i wneud yn iawn am y diffyg cyllid;*

*(c) Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus, mewn ymgynghoriad â Swyddog Adran 151, i ddyfarnu'r contract i'r tendr mwyaf manteisiol yn economaidd, yn amodol ar dderbyn cadarnhad ysgrifenedig o gyllid ychwanegol digonol gan Lywodraeth Cymru i wneud yn iawn am gostau diwygiedig y cynllun fel y cawsant eu hail-drafodwyd, nes bodloni'r Swyddog Adran 151.*

**11 CYMERADWYO TENDR AR GYFER ADEILADU MAN GWYRDD GORLLEWIN Y RHYL**

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans yr adroddiad cyfrinachol yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu contract ar gyfer y gwaith o adeiladu Datblygiad Man Gwyrdd Gorllewin y Rhyl.

Cafodd y Cabinet wybod am fanylion y contract ynghyd â'r cyllid grant sydd ar gael i gyflawni'r prosiect. Cafodd manylion y broses dendro eu darparu a nodwyd bod y tendrau a gafwyd yn fwy na'r amcangyfrif gwreiddiol ond eu bod yn dal i fod o fewn y gyllideb a ariennir yn gyfan gwbl gan Lywodraeth Cymru. Argymhellwyd y dylid dyfarnu'r contract yn amodol ar graffu ar y fanyleb er mwyn lleihau costau'r tendr i fod yn nes at yr amcangyfrif gwreiddiol.

Nododd yr aelodau'r refeniw a ddyrannwyd i ddarparu gwasanaeth cynnal a chadw am bum mlynedd yn dilyn y gwaith adeiladu. Fe'i gwnaed yn glir na fyddai'r Cyngor yn darparu gwaith cynnal a chadw ar ôl y bum mlynedd gyntaf ac y byddai camau'n cael eu cymryd gan y Bwrdd Prosiect i sicrhau bod yr ardal yn cael ei chynnal a'i chadw'n briodol wedi hynny.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*

*(a) Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol mewn ymgynghoriad â'r Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Economaidd i graffu ar y fanyleb er mwyn lleihau costau'r tendr, ac*

*(b) yn amodol ar gael cadarnhad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru y byddant yn darparu 100% o bris y contract, bod yr Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Economaidd yn cael ei awdurdodi i ddyfarnu'r contract i'r tendr mwyaf manteisiol yn economaidd.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1.20pm.